## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn dwyn i rym ddarpariaethau penodol o Ddeddf y Coronafeirws 2020 ("y Ddeddf").

Mae rheoliad 2 yn dwyn i rym am 9 a.m. ar 27 Mawrth 2020 adran 10 o'r Ddeddf, a Rhan 1 a pharagraffau 11, 12 a 13 o Atodlen 8 iddi, fel nad yw'n ofynnol i Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru gydymffurfio â gofynion penodol o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Mae Rhan 1 o Atodlen 8 yn cynnwys darpariaeth ragarweiniol ac mae paragraffau 11 a 12 yn dileu'r gofyniad bod rhaid cael o leiaf dri aelod er mwyn cyfansoddi tribiwnlys ac yn darparu y caniateir i achosion gael eu penderfynu heb wrandawiad, o dan amgylchiadau penodedig. Mae paragraff 13 yn darparu y caiff Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru enwebu aelod cyfreithiol arall i weithredu fel dirprwy os nad yw Llywydd y Tribiwnlys ar gael am gyfnod dros dro.

Mae rheoliad 3 yn dwyn i rym ar 1 Ebrill 2020 adran 15 o'r Ddeddf, a Rhan 2 o Atodlen 12 iddi, fel nad oes rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru gydymffurfio â dyletswyddau penodol mewn perthynas â diwallu anghenion, a chynnal asesiadau, o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"), ac i addasu dyletswyddau i ddiwallu anghenion o dan Ddeddf 2014, hyd nes bod rheoliadau mewn grym o dan adran 88 o'r Ddeddf (pŵer i atal dros dro ac adfer darpariaethau'r Ddeddf), neu nad yw'r Ddeddf mewn grym mwyach.